



Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn

Heol y Bardd, Porth Tywyn,

Sir Gaerfyrddin SA16 0NL

Ffôn:- 01554 832101

Ebost: admin@parcytywyn.ysgolccc.cymru

www.ysgolparcytywyn.co.uk

Pennaeth / Headteacher : Mr C Davies

09/12/2020

Wythnos olaf y tymor, Rhagfyr 13eg-18fed 2020

Annwyl Rieni,

Ddydd Mercher Rhagfyr 3ydd, rhannais gyda chi lythyr gan y Cyfarwyddwr Addysg yn eich hysbysu y bydd ysgolion Sir Gaerfyrddin yn aros ar agor tan ddydd Gwener 18fed Rhagfyr. Mae hwn yn gyfnod heriol iawn i ni i gyd ac mae llythyr Mr Morgans yn ei gwneud yn glir y bydd angen i ni i gyd ymddwyn yn gyfrifol yn ystod yr wythnos nesaf i sicrhau ein bod mor ddiogel â phosibl dros gyfnod y Nadolig.

Yr anrheg orau y gallwn ni i gyd ei dderbyn y Nadolig hwn o dan yr hinsawdd sydd ohoni yw helpu i amddiffyn ein gilydd fel y gallwn ni i gyd fod yn iach a threulio Nadolig iach a hapus gyda'n teuluoedd. Cadwch at ganllawiau'r ysgol a Llywodraeth Cymru h.y. cynnal pellter cymdeithasol, gwisgo gorchuddion wyneb, golchi dwylo, dilyn gweithdrefnau TTP / ynysu cywir, cyfyngu ar y lleoedd rydyn ni'n mynd iddyn nhw yn y gymuned ac ati, er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch cymuned gyfan yr ysgol.

Mae llawer o rieni eisoes wedi nodi eu bod, neu y byddant yn cadw'ch plant adref o'r ysgol am gyfnod cyn y Nadolig, gan sicrhau felly na fydd yn rhaid i unrhyw un yn eu teuluoedd hunan-ynysu dros yr ŵyl. Rwy'n deall, fel rhiant fy hun, pam y bydd llawer yn ystyried opsiwn o'r fath. Er na fyddwn yn awdurdodi'r absenoldebau hyn, gallaf gadarnhau y byddwn ni fel ysgol yn parchu'ch dymuniadau os cymerir y penderfyniad hwn. Gyda hyn mewn golwg, byddwn yn gofyn yn gwrtais ichi anfon e-bost at Mrs Gower yn y swyddfa (admin@parcytywyn.ysgolccc.cymru) er mwyn ein hysbysu o'ch penderfyniad i gadw'ch plentyn / plant adref yr wythnos nesaf.

Mae gwaith ar wefan yr ysgol ar gyfer y disgyblion hyn os dymunwch, ond mae'n bwysig nodi na fydd y staff yn uwchlwytho gweithgareddau dysgu gartref trwy Google Classroom neu HWB. Bydd yr ysgol yn aros ar agor yr wythnos nesaf a bydd gwersi yn parhau yn y dosbarthiadau ar gyfer y disgyblion hynny sy'n mynychu'r ysgol.

Nid oes penderfyniad cywir nac anghywir yma. Dim ond chi fel rhieni sy'n gwybod beth yw'r peth iawn i'w wneud i'ch teulu chi. Diolch i chi am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad parhaus i sicrhau bod cymuned gyfan yr ysgol yn cadw'n ddiogel.

Yn gywir,

C Davies

Headteacher

